# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 12 Rhagfyr 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Cynlluniau i Roi Statws Dinas i Drefi

**C10 Christine Humphreys:** Pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch cynlluniau i roi statws dinas i drefi yng Nghymru? (OAQ8406)

**Prif Weinidog Cymru:** Dim ond y Frenhines all ganiatáu statws dinas, ond arfer Ei Mawrhydi yw ceisio cyngor Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch unrhyw gais a gyflwynir.

Cyfrifoldeb Ysgrifennydd Gwladol Cymru yw cyfrannu'r cyngor hwn. Yr wyf wedi trafod hyn gydag ef, ond nid wyf wedi cael trafodaethau ffurfiol gyda'r Swyddfa Gartref yn hyn o beth.

### Rhoi'r Addewidion yn y Cytundeb Partneriaeth ar Waith

**C11 Dafydd Wigley:** Pa ystyriaeth a roddwyd i'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer rhoi'r addewidion a wnaed yn y cytundeb partneriaeth ar waith? (OAQ8416) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Blaenraglen Waith y Weinyddiaeth ar gyfer 2000-01

**C12 Jonathan Morgan:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar flaenraglen waith y weinyddiaeth ar gyfer 2000-01 fel y'i cyhoeddwyd ar 21 Tachwedd? (OAQ8399) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Sicrhau bod Polisïau'n Cael eu Cyd-drefnu

**C13 David Davies:** Beth mae'r Cabinet yn ei wneud i sicrhau bod polisïau'n cael eu cyd-drefnu ar gyfer darparu'r gwasanaethau gorau posibl i bobl Cymru ar lefel leol? (OAQ8401)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae ein bryd ar gyflwyno llywodraeth leol fodern, effeithiol ac ar gymunedau lleol cryf. Yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' addawsem y byddem yn moderneiddio llywodraeth leol gyda deddfwriaeth sydd yn neilltuol i'r Cynulliad. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn ei lle erbyn yr haf. Drwy ein cynigion ar gyfer cynllunio cymunedol a gwerth gorau, caiff gwasanaethau lleol eu profi'n gyson bob yn un ac yn gyffredinol. Bydd ein rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cynorthwyo ac yn grymuso'r cymunedau mwyaf difreintiedig.

### Polisi Ewropeaidd y Cynulliad

**C14 Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ddatblygiad polisi Ewropeaidd y Cynulliad? (OAQ8402)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r dimensiwn Ewropeaidd yn effeithio ar lawer o bolisïau gwaith y Cynulliad. Mae sefydlu ein swyddfa ein hunain ym Mrwsel a'r berthynas gyda Chanolfan Ewropeaidd Cymru yn golygu ein bod bellach mewn safle delfrydol i ddelio â'r gwaith hwn. Mae Gweinidogion Cabinet y Cynulliad wedi bod yn rhan o ddirprwyaethau Cyngor Gweinidogion y DU ac ar un adeg ar 8 Tachwedd, cawsant gyfle i arwain dirprwyaeth y DU yng Nghyngor y Gweinidogion.

### Rhoi Rhaglen 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' ar Waith

**C15 David Melding:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y gwaith o roi rhaglen ‘Rhoi Cymru’n Gyntaf’ ar waith? (OAQ8398) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU**

**C16 Jocelyn Davies:** Pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cyflwyno deddfwriaeth sy’n effeithio ar Gymru yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU? (OAQ8614) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cynrychioli Canolbarth a Gorllewin Cymru yn y Cabinet**

**C17 Glyn Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch cynrychiolaeth canolbarth a gorllewin Cymru yn y Cabinet? (OAQ8424)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid yw Gweinidogion yn cynrychioli eu hetholaethau na’u rhanbarthau yn y Cabinet. Cânt eu dethol ar sail eu haddasrwydd ar gyfer eu swydd. Mae fy nghyd-Aelodau i gyd yn ystyried anghenion Cymru gyfan yn eu gwaith.

**Bod yn Agored ac yn Atebol**

**C18 Brian Hancock:** Sut mae Prif Weinidog Cymru’n bwriadu sicrhau perthynas fwy agored ac atebol rhwng Cabinet y Cynulliad a phobl Cymru? (OAQ8410) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Datblygu Polisi ynghylch Newid yn yr Hinsawdd**

**C19 Phil Williams:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar gyfraniad Cymru tuag at ddatblygu polisi ynghylch newid yn yr hinsawdd ar lefel Ewropeaidd? (OAQ8425) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Dydd Gŵyl Dewi**

**C20 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y rheswm dros hepgor yr addewid i gael diwrnod o wyliau cyhoeddus yng Nghymru ar Ddydd Gŵyl Dewi o raglen fusnes flynyddol y Llywodraeth? (OAQ8408) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyfrifoldebau sydd yn Ymwneud â Gogledd Cymru**

**C21 Ann Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y modd y mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â gogledd Cymru ers ffurfio’r Cabinet partneriaeth? (OAQ8418) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyngor y Gweinidogion**

**C22 David Lloyd:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar y datblygiadau sy’n effeithio ar Gymru o ganlyniad i benderfyniadau a wnaed gan Gyngor y Gweinidogion? (OAQ8423) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Ehangu’r Undeb Ewropeaidd**

**C23 Mick Bates:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar oblygiadau ehangu’r Undeb Ewropeaidd i Gymru? (OAQ8405) [R]

**Prif Weinidog Cymru:** Mae tair gwlad ar ddeg newydd yn gobeithio ymuno â’r Undeb Ewropeaidd ac maent oll ar wahanol gamau yn y broses baratoi. Gallai ehangu ychwanegu dros gan miliwn o gwsmeriaid newydd at farchnad sengl fwy. Bydd cael gwared ar rwystrau masnachu ar y raddfa hon yn creu cyfleoedd newydd i fusnes ac arbenigedd Cymru.

**Mynd i’r Afael â Hiliaeth yng Nghymru**

**C24 Richard Edwards:** Yn ei rôl fel cydlynydd datblygu polisi, pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch mynd i’r afael â hiliaeth yng Nghymru? (OAQ8420) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Y Nifer Cyfyngedig o Fusnesau Preifat sydd ar Gael**

**C25 Alison Halford:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y nifer cyfyngedig o fusnesau preifat sydd ar gael i ateb anghenion contractol y Cynulliad? (OAQ8421)

**Prif Weinidog Cymru:** Polisi’r Cynulliad yw defnyddio cymaint ag y bo modd o gynnyrch, gwasanaethau ac arbenigedd safonol Cymru o fewn y gweithdrefnau a osodir yn rheoliadau Ewrop ar gaffael. Mae hyn yn golygu bod angen i gwmnïau Cymru gystadlu a gallu dangos eu ‘gwerth ychwanegol’ a’u ‘hysbryd cystadleuol’. Mae’r rheoliadau’n mynnu na ellir gwahaniaethau o blaid nac yn erbyn cynnyrch neu wasanaethau penodol cenedl. Ein polisi ni, yn unol â pholisi Llywodraeth y DU, yw cael y gwerth gorau am arian gan brosiectau a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru.

Mae’r Cynulliad yn buddsoddi’n drwm i ddatblygu cwmnïau Cymreig i’w gwneud yn fwy cystadleuol ac i wella sgiliau’r gweithlu lleol. Mae gwahanol gynlluniau eisoes ar waith, fel cynllun Ffynhonnell Cymru Awdurdod Datblygu Cymru, sydd ag amcanion ar gyfer cynyddu proffidioldeb, ysbryd cystadleuol a thwf cwmnïau sydd yn seiliedig yng Nghymru. Mae Ffynhonnell Cymru yn gynllun sydd yn cael ei arwain gan y prynwyr ac sydd wedi ei anelu at gynorthwyo cwmnïau Cymru i ennill rhagor o fusnes. Mae’n cydweithio â busnesau Cymreig i sicrhau bod eu perfformiad yn cwrdd â’r safonau uchel a ddisgwylir gan gwmnïau blaenllaw heddiw.

Mae gan bob un o’n cyrff cyhoeddus ei gynlluniau ei hun i gynorthwyo cyflenwyr lleol. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae’r Cynulliad yn adolygu caffael ar hyd y sector cyhoeddus yng Nghymru. Ymhlith pethau eraill, mae’r adolygiad yn rhoi sylw i chwilio am y ffordd orau i gynorthwyo ein busnesau bach a chanolig eu maint i gystadlu’n llwyddiannus am fusnes a ariennir gan y cyhoedd.

**Asesu Cabinet Newydd y Cynulliad**

**C26 Geraint Davies:** Pa asesiadau y mae’r Prif Weinidog wedi ei wneud hyd yma o Gabinet newydd y Cynulliad? (OAQ8415) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyflwno ‘Protocol ar yr Hawl i Weld Gwybodaeth’**

**C27 Elin Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar gyflwyno ‘Protocol ar yr Hawl i Weld Gwybodaeth’ erbyn diwedd 2000? (OAQ8409) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cynhadledd ar Newid Hinsawdd yn yr Hâg**

**C28 Kirsty Williams:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi eu cael gyda Dirprwy Brif Weinidog y DU ynghylch canlyniad y gynhadledd ar newid hinsawdd yn yr Hâg? (OAQ8403)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid wyf wedi cael cyfle i siarad â’r Dirprwy Brif Weinidog yn bersonol. Mae’n anffodus nad oedd y Gynhadledd wedi gallu dod i gytundeb. Er hynny, daw cyfleoedd i’r fei i adeiladu ar y camau sylweddol a gymerwyd yn ystod y trafodaethau hyn rhwng yn awr a phan fydd y trafodaethau’n ailddechrau ym Mai y flwyddyn nesaf, pan, gobeithio, y gallwn sicrhau canlyniad cadarnhaol.

**Mesur Hynt a Chyflawniad Amcanion**

**C29 Owen John Thomas:** Pa ddulliau sydd mewn grym i fesur hynt a chyflawniad yr amcanion a nodir yn rhaglen waith flynyddol y Llywodraeth yn ystod y flwyddyn? (OAQ8417)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae’r rhaglen yn nodi blaenoriaethau’r Llywodraeth yn glir ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bydd Cyfarfodydd Llawn a Phwyllgorau Pwnc yn cael cyfle i fonitro cynnydd yn ystod y flwyddyn.